COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 16 TACHWEDD 2022 16:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | C Davies | C L C Davies | P Davies |
| M J Evans | N Farr | P Ford | J Gebbie |
| W R Goode | RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths |
| D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes | RM James |
| P W Jenkins | M R John | MJ Kearn | W J Kendall |
| M Lewis | J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | G Walter | A Wathan |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | T Wood |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, J Llewellyn-Hopkins, RL Penhale-Thomas a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

MA Galvin (Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau), R Keepins (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), C Lord (Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid), Marchant (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), Nightingale (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau), M Pitman (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau) a/ac A Rawlin (Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus)

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cyflwyniad i'r cyngor gan gynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod adroddiad y Prif Weithredwr a'r cyflwyniad atodol yn cael eu nodi. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 16 Tachwedd 2022 |

| | |
|---|---|
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Moderneiddio Ysgolion – Ysgol Egin Cyfrwng Cymraeg Porthcawl |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y cyngor yn cymeradwyo cyllideb cyfalaf o £370,000 ar gyfer costau dylunio ac arolygu cynllun ysgol egin cyfrwng Cymraeg arfaethedig Porthcawl hyd at y cam tendro i gael ei chynnwys yn rhaglen gyfalaf y cyngor, wedi'i ariannu i ddechrau o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y rhagdybiaeth y bydd y costau'n cael eu hadennill unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r achos cyfiawnhad busnes a ailgyflwynwyd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 16 Tachwedd 2022 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Hanner Blwyddyn 2022-23 |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y cyngor yn nodi ei weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-23 am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2022 a'r dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a ragwelir ar gyfer 2022-23. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 16 Tachwedd 2022 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Sylfaen Drethu'r Cyngor 2023-24 |
| Y penderfyniad a wnaed | • Cymeradwyo sylfaen drethu'r dreth gyngor a'r gyfradd gasglu ar gyfer 2023-24, fel y gwelir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.<br>• Cymeradwyo yn ogystal y sylfaen drethu ar gyfer yr ardaloedd tref a chymuned a nodir yn Adran A yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 16 Tachwedd 2022 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi |

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 16 Tachwedd 2022 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Steven Bletsoe |
| Y penderfyniad a wnaed | “Mae’r cyngor hwn yn gofyn i’r Cabinet adolygu cytundeb Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac, os yw’n cael ei ganiatáu, yn ystyried ceisio cytundeb POB cyngor sy’n aelod o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i drafod gohirio neu leihau’r taliadau a drefnwyd o dan y fenter hon yn sylweddol ar gyfer 2023/24, gan ganiatáu i awdurdodau osod cyllidebau cytbwys sy’n gwneud y mwyaf o’r adnoddau sydd ar gael i ddiogelu gwasanaethau yn eu hardaloedd.”<br><br>Ymatebodd yr arweinydd drwy gadarnhau, yn sgil y cyfyngiadau ariannol presennol, a oedd yn cynnwys y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog, gofynion costau byw (gan gynnwys cynnydd mewn biliau cyfleustodau) a chwyddiant uchel ac ati, y byddai’r Cabinet yn edrych i adolygu holl drefniadau cydweithio’r awdurdod gyda sefydliadau partner allweddol ymhlith eraill, oherwydd y ffaith ei bod yn hanfodol, yn debyg i awdurdodau cyfagos, bod y cyngor yn gwneud arbedion effeithlonrwydd ym mhob maes lle mae’n bosibl gwneud hynny.<br><br>Cefnogodd y cyngor yr Hysbysiad o Gynnig yn unfrydol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 16 Tachwedd 2022 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |